**Pwyllgor: Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS - 04 - 01 ( p.3 )**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 28 Chwefror 2001 |
| **Teitl** | Adolygiad Dyrannu Adnoddau i'r NHS – Adroddiad am y Canfyddiadau sy'n Amlygu |
| | |

## 1. Pwrpas

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried Adolygiad Dyrannu Adnoddau i'r NHS – Adroddiad am y Canfyddiadau sy'n Amlygu – "Targedu Iechyd Gwael: Adroddiad Rhagarweiniol Grŵp Llywio y Cynulliad Cenedlaethol ar Ddyrannu Adnoddau'r NHS" (gweler Atodiad A)

## 2. Amser

2.1 Bydd angen i'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ystyried goblygiadau'r newidiadau strwythurol a newidiadau polisi sy'n codi o'r Cynllun Cenedlaethol. Hefyd, mae angen i'r adolygiad dyrannu adnoddau gael ei ymgorffori'n gyfan gwbl i'r broses o weithredu'r Cynllun Cenedlaethol. Bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer amserlen adroddiad terfynol yr adolygiad sy'n cael ei ystyried. Rhoddir diweddariad llafar yn y cyfarfod. Bydd cyfarfod y Grŵp Llywio Cenedlaethol ar 26 Ebrill yn canolbwyntio ar y Cynllun Cenedlaethol/goblygiadau'r Adolygiad Dyrannu Adnoddau.

## 3. Cefndir

3.1 Ar 16 Chwefror 2000, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddechrau adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer dyrannu adnoddau ariannol i'r NHS yng Nghymru. Roedd gofyn i'r tîm adolygu gyflwyno ei Adroddiad am y Canfyddiadau sy'n Amlygu i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol erbyn 31 Rhagfyr 2000 ac adroddiad terfynol ar gyfer ymgynghori yn ei gylch erbyn 31 Mawrth 2001 gyda golwg ar fod y newidiadau a argymhellir i'r prif fformwla yn cael eu cyflwyno'n raddol o 2002-3 ymlaen.

3.2 Penodwyd yr Athro Peter Townsend i oruchwylio'r adolygiad a sefydlwyd Grŵp Llywio Cenedlaethol i oruchwylio'r adolygiad. Rhoddodd yr Athro Townsend wybodaeth ddiweddar am hynt yr Adolygiad i'r Pwyllgor ar 21 Mehefin 2000. Er mwyn symud ymlaen â'r adolygiad ar lefel weithiol, sefydlwyd Grŵp Adolygu Prosiect (GAP) i ystyried casgliadau'r Tasgluoedd a chlustnodi materion i'w hystyried gan y Grŵp Llywio Cenedlaethol. Mae proses adolygu y Tasglu yn gynhwysol iawn ac mae wedi cael ei sefydlu i sicrhau cyfraniad llawn ar draws Cymru ar sail gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth dan arweiniad tîm o ymchwilwyr arbenigol.

3.3 Penodwyd tîm ymchwilio, dan arweiniad Dr David Gordon o Brifysgol Bryste, i roi cymorth ymchwil arbenigol mewn rhai meysydd allweddol. Mae'r tîm ymchwil wedi paratoi adroddiad annibynnol rhagarweiniol sy'n trafod materion iechyd gwael ac anghyfartaleddau ym maes iechyd. Bydd adroddiad terfynol y tîm ymchwilio yn cael ei gyhoeddi ar y cyd ag adroddiad terfynol yr Adolygiad.

## 4. Cydymffurfiaeth

4.1 Mae dyrannu adnoddau i'r NHS yn cael ei awdurdodi gan Ddeddf NHS 1977, Rhan IV, Adran 97.1 a gafodd ei gynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 a drosglwyddodd y swyddogaethau i'r Cynulliad. Mae sefydlu Grŵp Llywio a Gweithgor yn cael ei gwmpasu gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1998, Rhan II, Adran 40 i hwyluso'r swyddogaethau o dan Ddeddf yr NHS. Mae'r swyddogaethau hyn wedi cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion o briodoldeb neu reoleidd-dra. Mae Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad yn fodlon.

## 5. Camau i'w Cymryd

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r camau a gymerwyd a chadarnhau'r hyn a wnaed.

**Swyddog Cyswllt:**
Nick Patel, Cyfarwyddwr Prosiect yr Adolygiad Dyrannu Adnoddau, est 3780